Llenyddiaeth Cymru
**Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**
2022 - 2025

# Cyflwyniad

Yn Llenyddiaeth Cymru, rydyn ni wedi ymrwymo i weddnewid ein diwylliant llenyddol drwy sicrhau bod hwnnw'n gynrychioladol o bawb yng Nghymru ac yn hygyrch i bawb yng Nghymru. Mae'n hanfodol gwneud ein gorau glas i sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn i'r sector llenyddiaeth ffynnu a bod yn ystyrlon i bawb. Mae'r gred honno'n greiddiol i'n gwerthoedd fel sefydliad, a dyna sy'n gyrru ein gweledigaeth a'n strategaeth.

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys ein dyheadau a manylion am sut y byddwn ni'n mesur ein cynnydd ac yn rhannu gwybodaeth am hynny. Mae'r canlynol wedi'i gynnwys:

- Diffiniadau
- Pam mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn bwysig inni
- Enghreifftiau o'n cynnydd hyd yma
- Sefyllfa bresennol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y tirlun llenyddol
- Pa grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli y byddwn ni'n canolbwyntio arnyn nhw
- Y camau gweithredu rydyn ni'n bwriadu eu cymryd
- Manylion am sut y byddwn ni'n mesur ein cynnydd a'r gwersi a ddysgwn, ac yn rhannu gwybodaeth am hynny

Mae camau gweithredu ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u gwreiddio drwy ein sefydliad, felly mae'r cynllun hwn yn eistedd ochr yn ochr â'n Cynlluniau Gweithredu eraill a'n rhaglen o weithgareddau. Mae ein Cynllun Hygyrchedd yn arbennig o berthnasol, gan ei fod yn amlinellu sut y byddwn ni'n ceisio dylunio a strwythuro ein hamgylchedd gwaith a'n cyfleoedd creadigol fel bob pawb, waeth beth yw eu gallu, yn deall y rheini, yn gallu manteisio arnyn nhw, ac yn gallu eu defnyddio'n rhwydd, a hynny i'r graddau mwyaf posibl.

## Diffiniadau

- Cydraddoldeb

Yn ei hanfod, mae cydraddoldeb yn golygu trin pawb yn deg. Ond nid yw hyn yn golygu y dylid trin pawb yn union yr un fath – bydd gan rai pobl gryn fantais eisoes gan eu bod yn gallu prynu tocynnau a theithio i ddigwyddiadau llenyddol, neu gan eu bod yn gwybod sut i drefnu i gyhoeddi'u gwaith neu sut i roi llwyfan i'w gwaith. Ein nod ni yw sicrhau bod ein cyfleoedd ar gael yn gyfartal i bawb, a hynny drwy ganfod a mynd i'r afael â'r rhwystrau i gynhwysiant y mae ein gweithlu, ein hawduron, ein cynulleidfaoedd a'n cyfranogwyr yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae cydraddoldeb yn golygu agor drysau a oedd gynt ar gau.

- Amrywiaeth

Term yw amrywiaeth sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r ffaith bod pawb yn wahanol. Mae'n pwysleisio y dylid parchu, cydnabod a gwerthfawrogi'r gwahaniaethau hyn, a nodweddion gwarchodedig yn enwedig. Bydd cael gweithlu amrywiol yn golygu bod gennyn ni wybodaeth helaeth sy'n deillio o brofiadau bywyd pobl, a hynny'n ei dro'n golygu ein bod yn gwasanaethu

ein cynulleidfaoedd amrywiol yn well. Bydd sîn lenyddol amrywiol yng Nghymru yn sicrhau bod lleisiau ein holl gymunedau'n cael eu cynrychioli a'u clywed, gan ysbrydoli'r cenedlaethau nesaf o awduron a chynulleidfaoedd.

- Cynhwysiant

Wrth sôn am gynhwysiant, rydyn ni'n golygu bod yn groesawgar ac yn garedig wrth ddod ag ystod amrywiol o bobl ynghyd yn y sector celfyddydau a llenyddiaeth – boed yn awduron, yn gynulleidfaoedd, yn weithwyr llenyddol proffesiynol, yn gynhyrchwyr, yn staff, yn ddarllenwyr neu'n gyfranogwyr – a hynny waeth beth fo'u cefndir. Rydyn ni'n gwmni cenedlaethol sydd â gwerthoedd cynhwysol, ac rydyn ni am i bawb yng Nghymru allu ymwneud â ni ac â'n gwaith.

## Pam mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn bwysig i Llenyddiaeth Cymru

Ar sail ein dealltwriaeth o rym llenyddiaeth wrth rymuso, gwella a chyfoethogi bywydau, a'r angen i'n gweithgareddau ganolbwyntio ar gael yr effaith fwyaf, rydyn ni wedi pennu **Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb** yn un o'n tair blaenoriaeth dactegol i'r sefydliad yn 2022-25. Bydd ein gwaith yn dal i ganolbwyntio ar bobl sydd wedi'u tangynrychioli ac sydd wedi profi hiliaeth, ableddiaeth a gwahaniaethu. Ein nod yw datblygu sector sy'n cefnogi mynediad teg i bawb drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hanesyddol a strwythurol a rhoi llwyfan i leisiau amrywiol.

Mae llenyddiaeth wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn y cysyniad o ryddid mynegiant. Fodd bynnag, mae angen rhoi cyfleoedd cyfartal a chynrychiolaeth deg er mwyn i'r rhyddid hwnnw fod yn rhywbeth go iawn. Rydyn ni'n gwybod bod amryw o rwystrau'n dal i fodoli yn y sector a'r rheini'n atal awduron, darllenwyr a chynulleidfaoedd rhag ymwneud â llenyddiaeth. Mae ymchwil wedi dangos bod graddiant economaidd-gymdeithasol cryf yn bodoli wrth i bobl gyfranogi yn y celfyddydau yn y Deyrnas Unedig. Ceir tystiolaeth bod unigolion sydd o dan anfantais yn llai tebygol o ymwneud â gweithgareddau diwylliannol, tra bo mwy na dwbl cyfran yr unigolion o grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch wedi cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol o'u cymharu â'r rheini o aelwydydd incwm isel.

Gall llenyddiaeth greu sawl canlyniad sy'n gysylltiedig â llesiant, gan gynnwys gwell gallu i ddangos empathi, llai o unigrwydd, a lefelau uwch o hunanymwybyddiaeth, ymdeimlad o hunaniaeth, a hunan-barch. Y grwpiau rydyn ni'n eu blaenoriaethu yn ein gweithgareddau yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o wynebu rhwystrau niferus o ran symudedd cymdeithasol, llwyddiant addysgol, ac iechyd meddyliol a chorfforol da. Yn 2022, gan Gymru oedd y ffigur uchaf yn y Deyrnas Unedig o ran nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (23%). Mae'r ystadegau hefyd yn dangos anghyfartaledd sylweddol wrth edrych ar gyfraddau diweithdra pobl o liw a phobl sy'n byw gydag anabledd neu salwch meddyliol neu gorfforol.

At hynny, mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith anghymesur ar y grwpiau hyn yn y sector. Dangosodd arolwg a gynhaliwyd fel rhan o ymgyrch #WeShallNotBeRemoved bod 83% o'r ymatebwyr wedi mynegi pryder am y trefniadau mynediad i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr anabl wrth i'r sector ailagor. Rydyn ni'n llwyr gefnogi'r weledigaeth a amlinellwyd gan Celfyddydau Anabledd Cymru, ac yn ceisio sicrhau bod ein llenyddiaeth yn gynhwysol i bobl anabl a B/byddar. Mae'r pandemig hefyd wedi amlygu anghydraddoldebau yng ngweithlu'r sectorau diwylliannol, gyda'r rheini sydd ar incwm isel a/neu o gefndiroedd economaidd-

gymdeithasol is yn wynebu rhwystrau wrth geisio cael cyfleoedd gwaith yn y sector, tra bo pobl o liw neu bobl sydd ag anableddau'n aml wedi'u gorgynrychioli mewn etholaethau lle ceir anfanteision economaidd-gymdeithasol.

> Dywedodd **100%** o'r grŵp o awduron a oedd yn rhan o'n cynllun Cynrychioli Cymru 2021 i awduron o liw eu bod yn credu bod heriau'n bodoli wrth geisio dilyn gyrfa fel awdur/artist yng Nghymru.

Mae ein hymrwymiad i gynyddu Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb yn y sector yn flaenoriaeth i Llenyddiaeth Cymru, a dywedodd 90% o'r ymatebwyr a gymerodd ran yn ein Harolwg Rhanddeiliaid yn 2020 fod ein gwaith yn y maes hwn yn gwneud gwahaniaeth i Ddiwylliant Llenyddol Cymru. Dywedodd un ymatebwr:

> "[Rydw i wedi sylwi ar] newid mawr iawn mewn nifer o brosiectau a chynlluniau i gyrraedd, meithrin a dathlu awduron a chyfranogwyr o gefndiroedd amrywiol niferus"

Drwy weithio mewn partneriaeth, gwneud gwaith ymchwil, a dyfalbarhad, byddwn ni'n parhau i wrando a dysgu am ddulliau pwysig y gallwn ni'u defnyddio i ddylanwadu ymhellach ar y sector – sector y mae'n rhaid iddo newid er mwyn rhoi'r gwasanaeth gorau i bobl Cymru.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – Camau Gweithredu Llenyddiaeth Cymru

Mae Llenyddiaeth Cymru wedi dechrau ar y daith i greu sector llenyddol sy'n gynrychioladol o bawb yng Nghymru ac yn hygyrch i bawb yng Nghymru. Serch hynny, rydyn ni'n ymwybodol bod llawer mwy o waith o hyd i'w wneud. Cyn amlinellu ein cynlluniau penodol yn 23-25, dyma grynodeb o'n sefyllfa bresennol a rhai camau gweithredu diweddar. Sylwch mai dangos rhai o'r camau'n unig a wneir yma, ac nid yw'r rhestr yn gyflawn.

### Y Gweithlu:

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Ebrill 2022, roedd 14.3% o weithwyr, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr Llenyddiaeth Cymru yn arddel hunaniaeth pobl o gefndir Pobl Dduon, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig.

Wrth recriwtio i rolau amrywiol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethon ni barhau i warantu cyfweliad i ymgeiswyr a oedd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gefndir incwm isel, neu i ymgeiswyr a oedd yn byw gydag anabledd neu salwch cronig, os oedden nhw'n bodloni anghenion sylfaenol y swydd. Rydym yn parhau i ddysgu o'r arfer yma. Yn ein proses recriwtio mwyaf diweddar ar gyfer rôl Cydlynydd Creadigol, roedd 50% o'r ymgeiswyr a gafodd gyfweliad  gefndir sy'n cael ei dangynrychioli. Mae hyn yn awgrymu fod ein polisi recriwtio yn annog ymgeiswyr medrus o gefndiroedd mwy amrywiol i ymgeisio am swyddi gyda Llenyddiaeth Cymru.

### Materion Gweithredol:

Mae ein sefydliad yn cael ei arwain gan gyfres o werthoedd ac egwyddorion. Mae pob aelod o staff yn rhannu'r rhain, ac yn eu plith mae:

- rhoi pwyslais ar fod yn wrth-hiliol
- cefnogi grwpiau a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli
- parchu'r Gymraeg

- a hyrwyddo cynhwysiant a hygyrchedd.

Yn y flwyddyn flaenorol, mae'r staff wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant rheolaidd, gan gynnwys hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod, hyfforddiant Gwrth-hiliaeth, a hyfforddiant Hygyrchedd. Yn ystod cyfarfod staff i gyflwyno'r Cynllun Hygyrchedd newydd, roedd aelod o staff Celfyddydau Anabledd Cymru yn bresennol i ateb cwestiynau gan y staff.

Rydyn ni wedi cymryd camau i sicrhau bod ein gwaith yn fwy hygyrch, er enghraifft drwy sicrhau bod canllawiau a galwadau ein cynlluniau yn cael eu hysgrifennu mewn iaith glir a hygyrch, drwy ddarparu dogfennau mewn fformatau gwahanol i bobl sydd ag anghenion hygyrchedd, a thrwy gynnig gwasanaeth dehongli BSL ar gyfer ambell digwyddiad ar-lein.

Rydyn ni wedi cymryd camau i addasu ein strategaeth monitro a gwerthuso. Yn y gorffennol, rydyn ni wedi ceisio casglu data sy'n ymwneud â chyfleoedd cyfartal am bob artist, ond rydyn ni'n credu nad yw hynny bob amser yn briodol, ac fe all arwain unigolion i deimlo mai gweithred docynistaidd yw hynny.  Gan hynny, rydyn ni wedi gwneud y penderfyniad i gasglu data penodol am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu targedu'n unig, fel nad ydyn ni'n casglu ac yn cadw data personol yn ddiangen o hyd.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru yn gosod llwybrau i sicrhau Cymru wrth-hiliol erbyn 2023. Mae ein gwaith ym meysydd iechyd, addysg, yr iaith Gymraeg a threftadaeth Cymru yn cyd-fynd ag ethos Llywodraeth Cymru y dylai *"'rhethreg' ar gydraddoldeb hil [fod] yn gamau gweithredu ystyrlon, ac y dylai mudiadau a sefydliadau fod yn atebol am roi'r camau hyn ar waith fel sy'n gyffredin ar gyfer meysydd polisi pwysig eraill."*

Ochr yn ochr â'r saith cwmni celfyddydol cenedlaethol arall, rydym yn ymroddedig i ysgogi newid yn y sector gelfyddydol a diwylliannol yng Nghymru. Gyda'r prif fwriad o sicrhau amrywiaeth ymysg y rhai gaiff eu cyflogi ar lefelau uchel mewn sefydliadau, comisiynwyd astudiaeth gan y cwmnïoedd i archwilio'r amgylchiadau cywir allasai wella amrywiaeth, yn benodol o fewn y maes arweinyddiaeth, o fewn eu sefydliadau eu hunain, ond hefyd o fewn sefydliadau diwylliannol eraill yng Nghymru. Y ffocws oedd cynyddu cynrychiolaeth o'r tri grŵp canlynol:

- Unigolion o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig – y mwyafrif byd-eang
- Pobl anabl neu b/Byddar
- Unigolion o gefndiroedd incwm isel.

Yn 2022, llwyddodd y grŵp o sefydliadau cenedlaethol mewn cais am arian gan gronfa Gwrth-Hiliaeth yn y Celfyddydau a Chwaraeon Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen o waith i archwilio a hybu Amrywiaeth mewn Arweinyddiaeth o fewn y celfyddydau yn 2023-25.

## Ein rhaglen:

Mae Llenyddiaeth Cymru yn dal i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd sy'n achosi tangynrychiolaeth mewn llenyddiaeth drwy gynnig cyfleoedd wedi'u targedu i grwpiau sydd ar y cyrion, a thrwy sicrhau bod cynrychiolaeth a chydraddoldeb yn flaenoriaeth ym mhob prosiect rydyn ni'n ei gynnal.

Ymysg uchafbwyntiau ein rhaglenni ar gyfer 2022-2023 y mae:

- Fel thema, mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ymddangos fel thema cyson yng ngwaith comisiwn ein Bardd Cenedlaethol, **Hanan Issa**, e.e. mae ei cherdd

'The ABCD's of Equal Opportunities' yn archwilio hunaniaeth a pherthyn, ac mae 'Global Warming' yn sôn am dlodi a'r caledi sy'n wynebu cymaint o unigolion a theuluoedd dros y misoedd sydd i ddod. Mae treftadaeth Cymreig-Iracaidd Hanan yn dod â chyfleoedd newydd i addysgu cynulleidfaoedd a chymunedau, e.e. yn ei chyfeiriadaeth at Eid yn ei hymateb creadigol cyfoes i'r hen glasur A Child's Christmas in Wales a gomisiynwyd gan Ŵyl Aeaf y Gelli yn 2022.

- Yn 2022, cynhaliwyd dau gwrs preswyl yn Nhŷ Newydd, **Llyfrau i Bawb** a **Stori i Bawb**, gan gynnig cyfanswm o 17 o lefydd rhad ac am ddim i awduron o liw ac awduron sydd wedi'u tangynrychioli i ddatblygu sgiliau ysgrifennu ar gyfer plant a phobl ifanc, ac i gwrdd ac arbenigwyr o'r diwydiant cyhoeddi er mwyn derbyn gwybodaeth i'w helpu ar eu taith at gyhoeddi eu gwaith.
- Yn 2023, bydd ein cwrs 6-wythnos, **Reinventing the Protagonist**, yn cael ei diwtora gan Kaite O'Reilly ar gyfer awduron anabl. I gynyddu hygyrchedd, bydd y cwrs hwn yn cael ei gynnal arlein. Bydd y cwrs yn cynnig gweithdai ar grefft ac ar ddatblygu gyrfa, ac yn cael ei ddatblygu a'u gynnal mewn partneriaeth â Chelfyddydau Anabledd Cymru. Bydd rhaglen ôl-ofal yn cael eu datblygu gyda'r criw i barhau i gynnig cyfleoedd datblygu a chymorth.
- Mae ein rhaglen datblygu awduron **Cynrychioli Cymru** – rhaglen bwysig a blaengar – hyd yma wedi rhoi cymorth dwys i grŵp newydd o 14 awdur o gefndiroedd incwm isel yn 2022, ac mae'n dal i gefnogi 12 o awduron o liw o'r rownd gyntaf drwy ein rhaglen ôl-ofal 3 blynedd. Yn Ebrill 2023, byddwn yn cefnogi criw Newydd o awduron o amrediad eang o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli i'w cynorthwyo i ddatblygu gyrfa fel awduron llyfrau plant a phobl ifanc.
- Rhaglen newydd sbon yw **'Sgwennu'n Well,** a gaiff ei lansio yn 2023 i ddatblygu a hyfforddi hwyluswyr â phrofiadau bywyd sy'n cael eu tangynrychioli i fynd mewn i gymunedau sydd angen grym llenyddiaeth i'w helpu gyda'u iechyd a'u llesiant. Wrth benodi grŵp ar gyfer y rhaglen hyfforddi ddwys hon, byddwn yn sicrhau canran uchel o siaradwyr Cymraeg i sicrhau fod mwy o hwyluswyr sy'n medru'r Gymraeg yn gallu gweithio yn eu cymunedau drwy eu mamiaith.
- **Cymru Ni | Our Wales**, yw ein prosiect addysg, a gaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i helpu ysgolion i gyflwyno'r argymhellion a geir yn adroddiad 'Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd'. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys gweithdai mewn ysgolion sy'n rhoi sylw i faterion yn ymwneud â hil a hunaniaeth drwy greadigrwydd. Mae awduron o liw o Gymru hefyd yn datblygu adnoddau addysgu digidol a fydd ar gael ar-lein. Bydd yr adnoddau digidol yma yn ychwanegu at waddol ein prosiect Cymru Ni | Our Wales gan alluogi athrawon i barhau gydag amcanion y prosiect tu hwnt i'r prosiect ei hun.
- Mae'r partneriaethau sydd wedi eu datblygu drwy Cymru Ni wedi arwain at Llenyddiaeth Cymru yn gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a consortia addysg rhanbarthol i ddatblygu a chynnal hyfforddiant **gwrth-hiliaeth proffesiynol i athrawon a hwyluswyr gweithdai.**
- Drwy ein prosiect mewn partneriaeth â Cadw, bu Alex Wharton yn cyfansoddi darnau creadigol newydd yn dathlu a chofio unigolion nodedig o dreftadaeth Du yng Nghymru, mewn ymateb i archwiliad Llywodraeth Cymru i henebion, ac enwau strydoedd ac adeiladau sy'n gysylltiedig â'r fasnach gaethwasiaeth.

# Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y tirlun llenyddol presennol

Mae natur anghynrychioladol ein sector wedi'i adlewyrchu yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru 2018-2023, *Er Budd Pawb,* sy'n dangos mai dim ond 2% o weithlu'r sefydliadau sy'n cael eu hariannu drwy Bortffolio Celfyddydol Cymru sy'n anabl, tra mai 3% yw'r ffigur cyfatebol yn achos pobl o gefndiroedd pobl Dduon, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig (Cyngor Celfyddydau Cymru, 2018). Tra fod angen diweddaru'r ystadegau yma bellach, mae trafodaethau anffurfiol gyda'r rhwydwaith gelfyddydol yn adrodd fod pobl anabl a phobl Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn parhau i gael eu tangynrychioli o fewn ein cwmnïoedd.

Nid oes data ar gael ar hyn o bryd ynghylch nodweddion gwarchodedig awduron yng Nghymru, nac am y cymeriadau sy'n ymddangos yn y llyfrau a gyhoeddir yng Nghymru. Drwyddi draw, serch hynny, drwy ddarllen catalogau llyfrau newydd, edrych ar natur digwyddiadau llenyddol, neu edrych ar y llyfrau sydd wedi bod yn gymwys am Wobr Llyfr y Flwyddyn yn y gorffennol, mae'n amlwg bod y sector llenyddiaeth a chyhoeddi yng Nghymru yn weddol anghynrychioladol o ran ethnigrwydd, anabledd, LGBTQA+ a nodweddion gwarchodedig eraill. Ers 1861, dim ond dwy fenyw – Mererid Hopwood a Hilma Lloyd Edwards – sydd wedi ennill y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn 2021, cyhoeddwyd *Daydreams and Jellybeans* gan Alex Wharton, y casgliad cyntaf erioed o gerddi i blant yng Nghymru i gael eu hysgrifennu gan fardd o liw a gafod ei osod ar Restr Fer Llyfr y Flwyddyn 2023 hefyd. Ac yn 2022, y cyhoeddwr Lucent Dreaming oedd y cyntaf yng Nghymru i gael golygyddion o liw, ar ôl cael cyllid gan y Cyngor Llyfrau.

Dyma rai enghreifftiau o'r anghydraddoldebau hanesyddol sy'n bodoli, a dim ond megis dechrau eu cydnabod a mynd i'r afael â nhw ydyn ni. Mae pobl o rai cefndiroedd demograffig yn dal i wynebu rhwystrau niferus wrth geisio ymwneud â'r byd llenyddol a chael gyrfa ysgrifennu broffesiynol, ac mae gwahaniaethu a diffyg mynediad i gyfleoedd wedi golygu bod unigolion wedi cael eu gadael ar ôl.

Pan na fydd pobl yn gweld eu hunain yn yr hyn maen nhw'n ei ddarllen, maen nhw'n llai tebygol o lawer o chwilio am weithiau eraill ac yn llai tebygol o weld gwerth mewn ysgrifennu creadigol. Pan na fyddan nhw'n gweld eu hunain yn cael eu cynrychioli gan y sefydliadau ac o fewn y sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd creadigol, maen nhw'n llai tebygol o lawer o ymwneud â'r cyfleoedd hynny ac o wneud cais amdanyn nhw.

Dylai awduron Cymru gynrychioli ystod o oedrannau, cefndiroedd economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd, rhywedd, crefyddau ac ieithoedd, ac ni ddylai un proffil demograffig penodol eu nodweddu. Nid yw hyn yn golygu eithrio neb; mae'n golygu rhoi mynediad cyfartal a theg i gyfleoedd i arloesi'n artistig a datblygu'n broffesiynol.

Dyma pam ein bod wedi cyflwyno'r **Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** hwn. Nod y cynllun yw llywio ein gweithgareddau ni'n hunain er mwyn rhoi sylw i'r anghydraddoldebau hyn, ynghyd â llywio gweithgareddau y bydd pobl eraill yn eu trefnu gyda'n cyllid a'n cefnogaeth ni. Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd wedi deillio o ymgynghori

rheolaidd â'r sector, ffrindiau beirniadol a rhanddeiliaid, ynghyd ag o adolygiadau rheolaidd o'n gweithgareddau cyfredol. Mae hefyd yn ystyried y cyd-destun deddfwriaethol ehangach, ac yn benodol *Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015* a *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.*

## Pa grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli y byddwn ni'n canolbwyntio arnyn nhw?

Byddwn ni'n blaenoriaethu gweithio gyda'r canlynol:

- Unigolion Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig
- pobl sy'n byw gydag anableddau neu salwch (meddyliol neu gorfforol)
- unigolion o gefndiroedd incwm isel

Byddwn ni hefyd yn gweithio gydag awduron o'r gymuned LGBTQ+, y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ffoaduriaid, ac unigolion sy'n ynysig oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu, eu hymrwymiadau personol, a'u lleoliad daearyddol. Byddwn ni'n gwrando ar ymgyrchoedd fel Black Lives Matter a #weshallnotberemoved, yn dysgu ganddyn nhw, ac yn cyflwyno'u gwerthoedd yn ein gwaith ni. Rydyn ni'n cefnogi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru a'r weledigaeth i greu Cymru Wrth-hiliol.

**Nodyn am y derminoleg**

Rydyn ni'n cydnabod bod y derminoleg sy'n ymwneud â hil yn newid ac yn esblygu, ac y bydd gan wahanol unigolion a chymunedau safbwyntiau gwahanol am y termau hyn, ac y byddan nhw'n ffafrio gwahanol dermau. Mae'r termau "awduron/pobl o liw" yn cael eu defnyddio yn y ddogfen hon, a hefyd "unigolion Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig." Yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Sefydliadau Celfyddydol Cenedlaethol eraill, mae ein gwaith Amrywiaeth mewn Arweinyddiaeth yn cyfeirio at y rheiny o'r "mwyafrif byd-eang (Global Majority)". Mae rhai unigolion yn defnyddio llythyren fawr wrth gyfeirio at Anabl, neu Byddar – ac eraill ddim. Fel sefydliad rydyn ni'n parhau i ddysgu mwy am y lleisiau a'r cymunedau sydd wedi'u tangynrychioli yng Nghymru, a byddwn ni'n gwrando'n astud ar gyngor ein hawduron a'n rhanddeiliaid am yr iaith a ddefnyddir drwy gydol y broses hon, ac yn addasu ac yn newid fel bo'r angen.

Rydyn ni'n cydnabod bod nifer o bobl yn arddel nodweddion gwarchodedig niferus (fel mae'r rheini wedi'u diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010) a byddwn ni'n gweithio mewn ffordd groestoriadol, gan gofio bod pobl yn aml yn wynebu rhwystrau niferus a chymhleth wrth geisio ymwneud â'r celfyddydau.

At hynny, byddwn ni'n mynd ati'n bwrpasol i weithio tuag at gyflawni strategaeth Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*), sy'n ceisio creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Manylir ar yr ymroddiad hwn yn ein Cynllun Datblygu'r Gymraeg.

## Sut fydd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael eu gwreiddio yn ein rhaglen?

Mae ein rhaglen wedi'i strwythuro er mwyn cael effaith mewn **3 maes blaenoriaeth**: (Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb, yr Argyfwng Hinsawdd, ac Iechyd a Llesiant), a hynny drwy **3 math o weithgarwch** (Cyfranogi, Datblygu Awduron a Diwylliant Llenyddol Cymru). Mae'r Gymraeg yn parhau'n sylfaen i'n holl waith. Fe allwch chi weld pam mae'r meysydd hyn yn bwysig inni, a'r hyn y byddwn ni'n ei wneud, drwy ddarllen ein Cynllun Strategol.

Er mwyn i'n hymdrechion ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gael effaith, mae angen gwreiddio hyn yn ein holl waith, yn ein holl flaenoriaethau, ac yn ein holl weithgareddau.

Bydd gan y rhan fwyaf o'r gweithgareddau amcanion CAMPUS er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cyfrannu at ein gweledigaeth ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bydd y rhain yn cael eu mesur yn ystod pob prosiect, a bydd adroddiadau'n cael eu creu am hyn. At hynny, mae camau gweithredu ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i'w cael yn ein Cynlluniau Gweithredu eraill; yn fwyaf penodol yn ein cynllun Recriwtio ac Adnoddau Dynol; ein cynllun Hygyrchedd; ac yng Nghynllun Datblygu'r Gymraeg.

Mae'r adran isod, sy'n trafod pob un o'n mathau o weithgarwch, yn rhoi manylion yr ymddygiadau y bydd angen eu dangos yn ein holl waith yn y maes hwn er mwyn cyfrannu at ein gweledigaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Bob chwarter, byddwn ni'n paratoi adran o fewn ein Adroddiad Sefydliadol chwarterol sy'n rhoi manylion am ein cynnydd a gwersi i'w dysgu at y dyfodol. At ddibenion atebolrwydd, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan, yn ogystal â chael eu rhannu â'n bwrdd.

### Cyfranogi

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, mae'n bwysig bod ein gwaith cyfranogol yn gwneud y canlynol:

- Rhoi cyfleoedd ystyrlon i uwchsgilio hwyluswyr ac arweinwyr gweithdai sydd â phrofiadau bywyd er mwyn iddyn nhw allu ymwneud yn effeithiol â'n cymunedau targed sydd wedi'u tangynrychioli
- Cynnig cyfleoedd drwy amrywiaeth o blatfformau – gan gynnwys gweithdai ar-lein i'r rheini na allan nhw deithio am resymau iechyd a/neu oherwydd cyfrifoldebau gofalu
- Cefnogi a rhoi llwyfan i unigolion a sefydliadau eraill sydd ar flaen y gad wrth greu cynlluniau arloesol i grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli
- Sicrhau gwaddol ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol drwy weithio mewn partneriaeth

## Diwylliant Llenyddol Cymru

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, rhaid i ddiwylliant llenyddol Cymru fod yn gynrychioladol o'n cymunedau. I'r bobl hynny nad ydyn nhw ar hyn o bryd yn eu gweld eu hunain yn y llenyddiaeth y maen nhw'n ei darllen ac yn ei chlywed, dylen nhw allu gweld awduron sydd â phrofiadau bywyd tebyg mewn llyfrau cyhoeddedig, mewn gwaith a berfformir, fel hyrwyddwyr cymunedol, fel arweinwyr gweithdai, fel tiwtoriaid ysgrifennu creadigol, ac fel beirdd cenedlaethol.

Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n gwneud y canlynol:

- Defnyddio ein platfformau yn eang i eirioli dros awduron amrywiol.
- Penodi i swyddi llysgenhadol yn ofalus – gan ddewis pobl sy'n adlewyrchu'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.
- Cyflogi ystod amrywiol o hwyluswyr i arwain ein gwaith, gan sicrhau bod ganddyn nhw'r sgiliau iawn a'u bod nhw'n addas i'r cyfranogwyr.
- Cefnogi trefnwyr digwyddiadau llenyddol eraill, drwy'r Gronfa Ysbrydoli Cymunedau, i wneud eu rhaglenni yn fwy amrywiol a chynhwysol i gynulleidfaoedd.
- Sicrhau bod ein negeseuon cyfathrebu yn cyrraedd y tu hwnt i'n siambr eco ni'n hunain.

## Datblygu Awduron

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, mae'n bwysig bod ein gwaith Datblygu Awduron yn gwneud y canlynol:

- Buddsoddi arian ac amser mewn ffordd sy'n targedu ein cymunedau sydd wedi'u tangynrychioli.
- Creu continwwm o ysbrydoliaeth, cyfleoedd dysgu a chyfleoedd datblygu proffesiynol, i bawb o blant ysgol gynradd i weithwyr proffesiynol.
- Defnyddio pobl sy'n batrymau gweladwy i'w hefelychu i ysbrydoli, arwain a mentora.
- Gweithio i gael gwared ar y rhwystrau hanesyddol y mae pobl wedi'u hwynebu wrth geisio datblygu fel awduron proffesiynol.
- Gweithio mewn partneriaeth.
- Datblygu strwythurau asesu mewnol diduedd a chynhwysol nad ydyn nhw'n dibynnu, gyda'r nod o fod yn deg, ar ddulliau asesu rhy gymhleth sy'n rhoi baich rhy drwm ar awduron. Mae'r technegau a ddefnyddir ar hyn o bryd yn cynnwys defnyddio paneli sydd â phrofiadau bywyd ac asesu'n ddienw yn achlysurol. Mae'r rhain yn cyd-fynd â dull personol, cyfeillgar o gefnogi ymgeiswyr i wneud cais, a rhoi adborth unigol.
- Sicrhau bod y gwaith yn cael ei weld fel buddsoddiad hirdymor. Y tu allan i gylch oes prosiectau, caiff awduron gymorth ac arweiniad anffurfiol.

## Y Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb ohonon ni. Byddwn ni'n gweithio i wneud ein prosiectau Cymraeg yn gynhwysol i'n cynulleidfaoedd a'n cyfranogwy,r boed nhw'n rhugl, yn gallu defnyddio llond llaw o eiriau neu ymadroddion, neu'n gwbl newydd i'r iaith ac yn chwilfrydig i ddysgu mwy. Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod ein negeseuon cyfathrebu yn dathlu acenion, slang a thafodieithoedd yr iaith.
- Sicrhau bod ein gwaith yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy greu prosiectau atyniadol a chyffrous i bawb drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gweithio mewn partneriaeth i ganfod bylchau yn y ddarpariaeth Gymraeg, fel diffyg amrywiaeth mewn cyhoeddiadau i blant a phobl ifanc, a chreu ymyriadau addas.
- Bydd yn adnabod ac yn cydweithio â siaradwyr Cymraeg o fewn grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

## Cefnogi'r Sector

Byddwn ni wastad yn ymwybodol o'n braint fel y cwmni cenedlaethol sy'n gyfrifol am lenyddiaeth, ac yn ymwybodol o risgiau porthgadw. Rydyn ni'n credu mai dim ond drwy gydweithio y gellir creu tirlun llenyddol cynrychioladol. Byddwn ni'n helpu'r sector drwy wrando, drwy ateb ymholiadau, a thrwy ymateb i awduron a chynulleidfaoedd Cymru. Byddwn ni'n osgoi dyblygu prosiectau y gall pobl eraill eu cyflwyno'n well na ni. Byddwn ni'n canolbwyntio ar gasglu gwell tystiolaeth i ganfod ble mae'r rhwystrau mwyaf yn dal i fodoli, a ble y gallwn ni hyrwyddo unigolion a sefydliadau sy'n ceisio sbarduno newid. Byddwn ni'n cynghreirio â grwpiau gwan ac yn dangos ein cefnogaeth drwy ein gweithredoedd.

Byddwn ni hefyd yn cynnig cyfleoedd ymgynghori rheolaidd â thâl i'n hawduron sydd wedi'u tangynrychioli er mwyn ein helpu i ddatblygu ein cynlluniau a sicrhau bod ein cynigion a'n cymorth yn ystyrlon.